CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 10fed o ORFFENNAF 2023** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

YN BRESENNOL :
Cyng. Margaret Thomas-Cadeirydd

Cyng. Terry Jones
Cyng. John Lee
Cyng. Victor Hughes
Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. Gwenan Ll. Evans
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. Richard Parry
Cyng. Non W. Parry

HEFYD YN BRESENNOL :
Cynghorydd Sir : Nicola Roberts
Non Dafydd
Geraint Bebb
Heddlu Gogledd Cymru : PCSO Carwyn Gilford
Cyngor Sir Ynys Môn : Mr. Dylan Owen
Mr. Alun Owen
Mr. Dewi Lloyd

Clerc : H. Rhys Parry
Cymhorthydd : Ms. Linda Powell

Cyfarfod yn cael ei Recordio

Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod

23/097 Ymddiheuriadau : Cyng. Ieuan G. Davies, Cyng. Henry D. Jones, Cyng. Eleri Ll. Burns, Cyng. Christine Roberts, Cynghorydd Sir, Cyng. Dylan W. Rees.

23/098 Datganiad o Ddiddordeb : Dim

23/099 Heddlu Gogledd Cymru : PCSO Carwyn Gilford yn datgan fod yn gyfnod distaw ar hyn o bryd. Does dim troseddau i'w hadrodd yn ôl arnynt, heblaw am "graffiti" ar y toiledau cyhoeddus ger Siop Iceland a hefyd yn Ystâd Pencraig. Cadeirydd yn datgan fod angen edrych ar gael gosod mwy o gamerâu CCTV o gwmpas ardal y toiledau. **Derbyn**
Cadeirydd yn tynnu sylw'r Swyddog Heddlu fod difrod wedi ei wneud i goeden afal ym Mharc Chwarae Nant y Pandy . PCSO yn datgan, hyd ei wybodaeth, nid oedd y digwyddiad hwn wedi'i ailadrodd i'r Heddlu. **Derbyn**
Cyng. John Lee yn tynnu sylw at arwyddion y briffordd ar Lon Glandwr yn arwain at Stryd yr Eglwys ac yn holi os modd cael llinell wen ar ganol y ffordd i wahanu rhwng y troad i'r chwith a'r dde, i arbed damweiniau. Cytunwyd fod hyn yn fater i Adran Priffyrdd, Cyngor Sir Ynys Môn.

23/100 Cyflwyniadau :
1 Warden Cefn Gwlad y Dingle : Mr. Dylan Owen : Cyflwyniad "Power Point" llawn gwybodaeth gan y Warden. Aelodau wedi derbyn y ddogfen uchod trwy e-bost 11.07.2023.

PARHAD 23/100

Cyfle i'r Aelodau gael sesiwn cwestiynau ac atebion yn dilyn y Cyflwyniad. Cyng. Non Parry yn falch fod niferoedd y Gwiwerod Coch yn cynyddu a bod y byd natur yn ffynnu yn ardal y Dingle. Y Warden yn adrodd, fod cynlluniau i'r dyfodol yn cynnwys gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu ac incwm ar gyfer Prosiectau, edrych ar ymestyn y cyswllt i Oriel Môn trwy greu llwybr troed newydd, a phosibilrwydd o ddatblygu rhan ychwanegol yn ardal Nant y Pandy. Cyng. Non Parry yn tynnu sylw fod y Taflenni i hyrwyddo ardal Y Dingle erbyn hyn wedi dyddio, Mr. Dylan Owen yn ymateb fod yn waith ar y gweill i baratoi rhai newydd i'w dosbarthu.

Materion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol : Y Warden yn pryderu, er gwaethaf arddangos rhybuddion i gadw cwn ar dennyn, fod perchnogion yn anwybyddu'r arwyddion, gadael eu cwn yn rhydd ac maent wedyn yn rhedeg ar ôl y gwiwerod. Problemau gydag ysbwriel wedi'i wasgaru yn ddyddiol a bagiau baw ci wedi eu gadael ar y llawr. Yr Heddlu yn cyd-weithio gyda'r Gwardeiniaid i geisio datrys y problemau uchod.

Cadeirydd yn diolch yn fawr iawn i Mr. Dylan Owen a Mr. Alun Owen am eu Cyflwyniad. Y Gwardeiniaid yn awgrymu trefnu noson i'r Aelodau cael taith dywys trwy'r Dingle ac i gyd-weithio ar Brosiectau i'r dyfodol. **Derbyn**

2 **Mr. Dewi Lloyd : Cyngor Sir Ynys Môn : Ymgynghoriad - Cynllun Strategol i Wella Canol Trefi 2023-28 : Mr. Dewi Lloyd** yn arwain yr Aelodau trwy'r Ddogfen Drafft ar gyfer Ymgynghori - Mehefin 2023, a gyflwynwyd ar y "Teledu Smart". Aelodau wedi derbyn copi o'r ddogfen trwy e-bost 10.07.2023. Swyddog yn adrodd fod yr Ymgynghoriad yn Fyw ar y We ac yn bwysig lleisio ein barn cyn y dyddiad cau sef 28 Gorffennaf 2023. Swyddog yn rhoi gwybod bydd yr atebion yn cael eu defnyddio i gefnogi a llywio'r broses o greu cynllun strategol i wella canol trefi. Y cynllun ar gyfer Llangefni fydd y cyntaf i'w weithredu yn ystod Mis Medi/Hydref 2023. Swyddog yn esbonio cefndir y Cynllun Strategol i wella canol y dref a bod Arolwg i edrych ar eiddo gwag/blêr yn cael ei weithredu ynghyd a gratiau i ail-ddefnyddio eiddo gwag neu i'w newid yn dai. Y Swyddog yn adrodd fod Cronfa Grantiau SPF wedi derbyn llawer mwy o geisiadau na chyllideb sydd ar gael ac yn cydnabod fod cais y Cyngor Tref wedi bod yn aflwyddiannus ac yn annog i ni edrych ar gyllideb arall. Grŵp Adfywio Llangefni yn gweithio ar y cyd gyda'r Cyngor Sir a Thref ar brosiectau i wella canol y dref. Yn dilyn trafodaeth a mewnbwn gan yr Aelodau, y Swyddog yn cadarnhau fod gwaith ar y gweill i foderneiddio canol y dref wrth edrych ar ddodrefn y stryd, sef y bolardiau a.y.b. Cyng. Non Parry yn awgrymu ymgynghori gyda Siopwyr a Busnesau'r dref i dderbyn eu barn ar weledigaeth y dref i'r dyfodol. Cadeirydd yn awgrymu ystyried blaenoriaeth traffig i allu troi i'r chwith oddi ar Stryd yr Eglwys tuag ar Faes Parcio Neuadd y Dref.. Cynghorydd Sir, Nicola Roberts yn datgan fod yn bwysig cwblhau'r Holiadur i hybu gwelliannau i'r dref.

Cadeirydd yn diolch yn fawr i Mr. Dewi Lloyd am ei Gyflwyniad.

23/101 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 12.06.2023

Cyng. Non W. Parry yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

23/102 I Ystyried Materion yn codi o Gofnodion 12.06.2023

1 Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Clerc yn cadarnhau fod Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa ynglŷn ag Eitem 23/071.1 o'r Cofnodion uchod. Cyng. Lewis yn holi pa bryd fydd y llythrennau hunanlynol yn cael eu gosod ar gerbyd y Cyngor Tref. Clerc yn esbonio fod y gyllideb a glustnodwyd eleni ar gyfer cynnal a chadw'r cerbyd wedi bod yn ormodol oherwydd gwariant ychwanegol i archebu teiars a chyfrannu tuag at waith Yswiriant a.y.b. Clerc yn datgan bydd y mater yn derbyn sylw maes o law. Dim trafodaeth nac ymateb pellach gan yr Aelodau eraill. **Derbyn**

23/103 I Ystyried Argymhellion Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae 26.06.2023
Eitem 23/082 - Fynwent, Lon Newydd :

1 Cyng. J. Egryn Lewis yn cynnig derbyn pris contract Cwmni RPO Williams, sef £6,199.20, i ddatblygu ardal o 96M2 yn rhan gwaelod y Fynwent ar gyfer Beddi ychwanegol. Unwaith yn rhagor, Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan siom mai dim ond un pris oedd wedi ei dderbyn.
PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn y Contract uchod a gofyn i'r Clerc roi gwybod i'r Cwmni ac i'r gwaith gychwyn mor fuan ag y bo modd.

2 Cyng. John Lee yn tynnu sylw at drafodaethau ynglŷn â chau neu beidio cau hanner y giât i fynedfa gyhoeddus Y Fynwent, Lon Newydd. Cyng. Lee yn awgrymu, os bydd hanner y giât yn wastad o dan glo, dylid arddangos arwydd ar y wal gyda chyfarwyddiad i drefnu trwy'r Swyddfa i gael y goriad. Clerc yn esbonio fod cau hanner y giât yn gwahaniaethu yn erbyn yr anabl. Oherwydd bod yr Aelodau ddim wedi dod i gytundeb ynglŷn â'r uchod **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc ddilyn hyn i fynnu wrth edrych i mewn i'r rheolau a bydd eitem yn cael ei gynnwys ar Raglen Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae ar 18fed o Fedi 2023 i drafod ymhellach.
Yn dilyn yr uchod Cyng. John Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. Non Parry yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.
Cyng. John Lee yn tynnu sylw fod angen gwaith atgyweirio ar dalcen adeilad Ystafelloedd Newid, Cae Isgraig. Clerc a'r Tirmon am ddilyn hyn i fynnu ac asesu'r gwaith uchod.

23/104 I Ystyried Argymhellion Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol 03.07.2023

1 Cyng. John Lee yn tynnu sylw at Eitem 23/095.1, yn ymwneud ac oddeutu £50,000 o wariant i adnewyddu/dod a'r offer chwarae i safon dderbyniol. Clerc yn cadarnhau fod y gost yma yn cynnwys adnewyddu a phrynu offer newydd ond ar hyn o bryd nid oes digon o arian ar gael i roi sylw i bob dim. Y Cadeirydd yn gofyn y cwestiwn i'r Cynghorydd Sir, a oes cyfraniad ariannol ar y gweill i'r Gymuned, trwy ddatblygiadau tai fforddiadwy o dan "Section 106" ? Cadeirydd yn argymell gweithio ar y cyd gyda'r Cynghorwyr Sir a'r Cyngor Sir ac edrych i mewn i'r oblygiadau Cynllunio ar y Datblygwyr.
Yn dilyn yr uchod, Cyng. Huw Owen yn Cynnig a Cyng. Margaret Thomas yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

23/105 I Ystyried Argymhellion Is-bwyllgor Staffio a Safonau 06.07.2023

1 Yn dilyn o Eitem 23/121 o'r Cofnodion - "Staff Appraisal", Cyng. Victor Hughes yn adrodd nid yw'n gwybod beth ydyw oriau gwaith y Tirmon a hefyd Staff y Swyddfa, a dylid yr Aelodau fod yn ymwybodol o hyn. Clerc yn rhoi gwybod o oriau cytundebol y staff, Cyng. Hughes yn gofyn am y wybodaeth yn ysgrifenedig. Clerc i weithredu ar hyn.

2 Eitem 23/122 - Cyflogaeth - **PENDERFYNWYD** derbyn graddio'r 4 Aelod o Staff yn unol â graddfa'r Gyflogaeth Genedlaethol NJC, oherwydd y dyletswyddau ychwanegol.

3 Yn dilyn o Eitem 23/123.1 - oherwydd y cynnydd mewn asedau a chyfrifoldebau a phwysa gwaith, Clerc yn awyddus i gyflogi Aelod arall o staff allanol. Cyng. J. Egryn Lewis yn tynnu sylw nad oedd darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer hyn a beth fuasai'r gost ychwanegol. Yn dilyn trafodaeth, y Cadeirydd yn cynnig eu bod yn cytuno mewn egwyddor i'r cais uchod.
Yn unol â'r uchod, Cyng. Non Parry yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

23/106 Cynllunio

1 I Dderbyn Cofnodion Is-bwyllgor Cynllunio Mehefin 2023 :
Cadeirydd yn adrodd fod y ddau Gais/Ymgynghoriad Cynllunio wedi eu trafod gan Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ar ddiwedd y Cyfarfod Llawn 12.06.2023 a'r sylwadau wedi eu hanfon ymlaen at Gyngor Sir Ynys Môn.
Sylwad gan Cyng. John Lee ar Gais FPL/2023/121, fod digon o Fusnesau "Take Away" yn bodoli yn y dref. Cyng. Nicola Roberts yn esbonio'r drefn o weithredu'r Ceisiadau.

PARHAD 22/106

Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. Arwel Môn Hughes yn Eilio i dderbyn Taflen Ymgynghoriadau Cynllunio Mis Mehefin 2023. **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod.

23/107 I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebion y Maer :

1 **Llu Awyr Brenhinol Y Fali "Annual Reception" 07.07.2023 :** Maer y Dref a'r Dirprwy Faer wedi mynychu ac wedi mwynhau'r Achlysur.

2 **Sul Dinesig Cyngor Dinas Bangor 16.07.2023 :** Y Maer wedi derbyn y Gwahoddiad.

23/108 Materion yn Codi gan Aelodau :

Cyng. J. Egryn Lewis - Adfywio Llangefni-Di-blastig : Yn dilyn mynychu Cyfarfod Grŵp Adfywio Llangefni 27.06.2023, Cyng. Lewis yn adrodd fod Tref Biwmares wedi cychwyn ar y prosiect Di-blastig. Cefndir gan Cyng. Lewis yn esbonio fod y prosiect yn gweld busnesu lleol yn dod at ei gilydd i gael gwared ar plastic untro er mwyn gwarchod yr amgylchedd lleol. Cyng. Lewis yn datgan fod y Grŵp Adfywio yn arwain ar hyn ac yn gofyn am farn y Cyngor Tref i gefnogi'r fenter newydd yma. Yn dilyn trafodaeth fer, Y Cadeirydd yn datgan cytuno i gefnogi mewn egwyddor a disgwyl mwy o wybodaeth yn dilyn Cyfarfod nesaf Gwrp Adfywio 03.10.2023. Clerc yn adrodd fod mwy o wybodaeth ar gael ar Dudalen Facebook Biwmares Di-blastig. **Derbyn**

23/109 Adroddiad y Clerc

Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol:

1 **Y Fynwent, Lon Newydd :** Cytunwyd o dan Eitem 23/103.1 o'r Cofnodion i dderbyn pris Cytundeb Cwmni RPO Williams i symud ymlaen gyda'r gwaith i ddatblygu ardal 96M2 o ran gwaelod y Fynwent ar gyfer Beddi ychwanegol.

2 **Y Fynwent Newydd – Tir Penlan :** Asiant yn cadarnhau, yng Nghyfarfod Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae 26.06.2023, fod y Cais Cynllunio wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Sir. Disgwyl ymateb. **Derbyn**

3 **Cae Criced :** Dogfennau Terfynol (Ffurflen TR1) wedi eu llofnodi a'r trosglwyddiad wedi ei gwblhau. Cyngor Tref i dalu'r Ffi Cofrestru Tir yn y dyddiau nesaf. **Derbyn**

4 **Parc Sglefrio :** Yn dilyn Cyfarfod 15.06.2023 rhwng Cyfreithiwr y Cyngor Tref, Cynrychiolwyr Menter Gymdeithasol, Cyng. Margaret Thomas a Cyng. Victor Hughes, Clerc yn datgan fod y Cyfreithiwr yn cyfathrebu yn uniongyrchol gyda Rheolwr Menter Gymdeithasol ynglŷn â throsglwyddo'r Les. Diweddariad pan fydd ar gael. Cyng. John Lee yn holi, beth ydyw'r sefyllfa gyda'r swm o arian £2,500 yng Nghyfri'r Banc y Fenter Cymdeithasol. Clerc yn esbonio fod y wybodaeth ddiweddaraf ynghlwm yn y Rhaglen o dan Eitem 23/103. **Derbyn**

5 **Gwyliau Haf y Staff :** Yn ystod Mis Awst bydd y staff yn cael gwyliau blynyddol, gyda'r Tirmon wedi trefnu oriau anghyfnewidiol. Staff y Swyddfa ar wyliau hefyd yn ystod Mis Awst a bydd oriau agor y Swyddfa ar ddangos yn yr Hysbysfwrdd tu allan i'r Swyddfa. **Derbyn**

23/110 Adroddiad Pwyllgorau Allanol :

1 **Cyfarfod Parc Sglefrio 15.06.2023 -** Wedi ei drafod o dan Eitem 23/109.4 o'r Rhaglen. Cyng. Nicola Roberts yn awyddus fod Tudalen Facebook Parc Sglefrio yn parhau. Eglurodd y Clerc nid oes gan y Cyngor Tref y gweithlu i fonitro ac ymateb i negeseuon yn yr un modd ag y mae'r Rheolwr wedi bod yn ei wneud. Gofynnwyd i'r Rheolwr a oedd eisiau parhau i fonitro'r Tudalen Facebook. Disgwyl ymateb. **Derbyn**

2 **Cyfarfod Grŵp Adfywio Llangefni 27.06.2023 -** Dim Trafodaeth - Cofnodion Cyfarfod 25.04.2023 wedi eu rhannu gyda'r Aelodau - er gwybodaeth. **Derbyn**

3 **Un Llais Cymru - Cynhadledd Arfer Arloesol 05.07.2023 -** Dim Cynrychiolydd - Disgwyl am adborth. **Derbyn**

23/111 Cyllid :

1 I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Mehefin 2023 :

Cadeirydd yn adrodd fod Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod i gael golwg trwy Anfonebau Mis Mehefin 2023. Yn codi o'r Fantolen Ariannol, Cyng. Lewis yn holi am y canlynol :

Taliad £527.75 - G. Parfoot - Gwasanaeth Cerbyd, Garej tu allan i'r dalgylch a ddim wedi Cofrestru TAW. Clerc yn esbonio fod y pris yn dderbyniol ar gyfer gwasanaeth llawn i'r cerbyd a bod yn amgylchiadau arbennig o gael gwneud y gwaith dros benwythnos i arbed y Tirmon fod heb y cerbyd yn ystod yr wythnos. Clerc yn ymateb na fydd TAW yn cael ei godi ar y Cyngor Tref. Dim trafodaeth bellach. Cyng. John Lee yn tynnu sylw at y gost uchel o £421.40 i drwsio'r Strimmer gan Gwmni Mona Tractor. Dim trafodaeth bellach.

Yn dilyn yr uchod, Cyng. Arwel Môn Hughes yn Cynnig a Cyng. J. Huw Owen yn Eilio i dderbyn y Fantolen Ariannol. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Mis Mehefin 2023.

23/112 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :

Cynghorydd Sir Nicola Roberts yn adrodd ar y canlynol :

1

- Ymgynghoriadau ar y Gweill : AHNE; Ymgynghoriad Strategaeth Ysgolion; Cynllun Strategol Gwella Canol Trefi; Cyllideb Flwyddyn Nesaf;
- Gemau'r Ynysoedd - Guernsey : Chwaer Cyng. Non Dafydd yn rhan o'r Tîm wedi derbyn Medal Arian am Saethu;
- Prosiectau : Gwaith ar y gweill;
- Cyng. Victor Hughes yn awyddus i dderbyn ffigyrau o ddatblygiadau tai/tai fforddiadwy/eiddo gwag a.y.b. yn y Gymuned. Cyng. Roberts yn rhedeg trwy'r ffigyrau ac am anfon y wybodaeth yma yn ysgrifenedig i'r Swyddfa i'w rannu gyda'r Aelodau;
- Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir yn edrych ar ddatblygiadau a strwythur y cynlluniau;

Cadeirydd yn diolch i Cyng. Nicola Roberts am ei mewnbwn.

23/113 Gohebiaeth a materion newydd

1 Ymgynghoriad Statudol ar Gyfer Prosiect Gwynt Alltraeth Mona – Er Gwybodaeth

2 Ffurflen i Ddatgan Diddordeb Ariannol neu Ddiddordeb Ymgofrestredig - Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gwblhau, arwyddo a dychwelyd y Ffurflen uchod i'r Swyddfa.

3 Cyfraniadau 2022-2023 - Llythyr o ddiolch wedi ei dderbyn gan Bwyllgor Gŵyl Cefni.

23/114 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth

Materion wedi eu hanfon trwy E-bost yn ystod Mis Mehefin 2023 :

1 Un Llais Cymru - Derbyn

2 Materion Eraill - Derbyn

23/115 Sedd Wag – Ward Tudur :

Clerc yn adrodd fod y Cyngor Tref yn disgwyl i dderbyn yr Hysbyseb gan Adran Etholiad, Cyngor Sir Ynys Môn, yn ystod y dyddiau nesaf. Unwaith y daw hyn i law, bydd yr Hysbyseb yn cael ei arddangos yn Hysbysfwrdd y Cyngor Tref (Canol y Dref a thu allan i'r Swyddfa) ynghyd a Gwefan Swyddogol y Cyngor Tref. Bydd y dyddiad cau pythefnos o'r dyddiad yr arddangoswyd yr hysbysiad. **Derbyn**

23/116 I Ystyried Unrhyw Fater Brys gan Y Maer :

1 Maes Chwarae, Maes Hyfryd, Lon Newydd :

Cadeirydd yn adrodd fod cwyn wedi ei dderbyn gan Gynghorydd Sir, Geraint Bebb, am gyflwr truenus gydag offer wedi torri neu ar goll yn Faes Chwarae Maes Hyfryd. Cadeirydd a'r Clerc yn adrodd fod pum Maes Chwarae o dan gyfrifoldeb y Cyngor Tref ac yn cydnabod fod rhai o'r Meysydd Chwarae wir angen offer newydd/gwaith atgyweirio arbenigol. Oherwydd y

PARHAD 23/116

costau uchel o wneud hyn, nid oes digon o gyllideb. Cynghorydd Sir Nicola Roberts, yn awgrymu edrych ar grantiau o fewn Adran Tai'r Cyngor Sir tuag at Drefi Tlawd. Cadeirydd yn diolch am y wybodaeth yma. Dim trafodaeth bellach. **Derbyn**

23/117 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :

1 Cyfarfod Llawn Nos Lun 11eg o Fedi 2023.

Arwyddwyd gan

CYNGHORYDD MARGARET ANN THOMAS

CADEIRYDD